*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 1027 (Cy.94)

# ANIFEILIAID, CYMRU
# ATAL CREULONDEB

## Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2007

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *27Mawrth 2007* |
| *Yn dod i rym* | - - | *28 Mawrth 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2 o Ddeddf Amaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo ef.

Yn unol ag adran 2(1) o'r Ddeddf honno, mae'r Cynulliad wedi ymgynghori â'r personau hynny yr ymddengys iddo ef eu bod yn cynrychioli'r buddiannau y mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â hwynt, fel y gwêl yn briodol.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2007. Maent yn gymwys i Gymru a deuant i rym ar 28 Mawrth 2007.

### Dirymiadau

**2.** Mae'r offerynnau a ddisgrifir yn y golofn gyntaf a'r ail golofn o'r Atodlen yn cael eu dirymu i'r graddau a bennir yn y drydedd golofn o'r Atodlen.

(**1**) 1968 p. 34. Gweler adrannau 8(4) a 50 am y dehongliad o "the Ministers". Cafodd swyddogaethau'r Gweinidogion, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

*D. Elis-Thomas*

27 Mawrth 2007

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38.

## YR ATODLEN

Rheoliad 2

DIRYMIADAU

| *Yr offeryn a ddirymir* | *Y Cyfeirnod* | *Graddau'r Dirymu* |
|---|---|---|
| Rheoliadau Lles Da Byw (Llawdriniaethau a Waherddir) 1982 | O.S. 1982/ 1884 | Y cyfan o'r Rheoliadau. |
| Rheoliadau Lles Da Byw (Llawdriniaethaua Waherddir) (Diwygio) 1987 | O.S. 1987/ 114 | Y cyfan o'r Rheoliadau. |
| Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 | O.S. 2001/ 2682 | Paragraffau 8 a 9 o Atodlen 3D(**3**); a Pharagraffau 19 i 26 o Atodlen 6 (**4**). |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu'r darpariaethau a bennir yn yr Atodlen, o ganlyniad i ddisodli eu sylwedd gan Reoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007.

Mae arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi. Gellir cael copïau oddi wrth Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

(**3**) Mewnosodwyd Atodlen 3D gan O.S. 2002/1898 (yn rheoliad 2(8)).
(**4**) Amnewidwyd Atodlen 6 gan O.S. 2003/1726 (yn rheoliad 3(4)).